COFNODION CYFARFOD y Cyngor A GYNHALIWYD ar ffurf Hybrid yn Siambr y Cyngor, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB / O bell ar Microsoft Teams ddydd Mercher, 4 Chwefror 2026 AM 16:00

## Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | O Clatworthy | RJ Collins |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | GC Haines | M L Hughes |
| D M Hughes | M R John | M Jones | W J Kendall |
| M Lewis | R J Smith | JC Spanswick | I M Spiller |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | A Ulberini-Williams | G Walter |
| A Wathan | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | N Clarke | C Davies | C L C Davies |
| P Davies | P Ford | H Griffiths | P W Jenkins |
| J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | J E Pratt | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

## 236. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | S J Griffiths, D T Harrison a/ac RM James |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

## 237. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Y Cynghorydd Tim Wood: Buddiant rhagfarnus yn ymwneud ag eitem 14<br><br>Y Cynghorydd Amanda Williams: Buddiant personol yn ymwneud ag eitem 6 (Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Coety)<br><br>Y Cynghorydd Steve Bletsoe: Buddiant rhagfarnus yn ymwneud ag eitem 7 oherwydd cyflogaeth |

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorydd Tim Thomas: Buddiant rhagfarnus yn ymwneud ag eitem 7 oherwydd cyflogaeth<br><br>Y Cynghorydd Steven Easterbrook: Buddiant rhagfarnus yn ymwneud ag eitem 14<br><br>Y Cynghorydd Elaine Winstanley: Buddiant personol yn ymwneud ag eitem 6 (Gweithiwr yr ymddiriedolaeth ddiwylliannol sy'n rhedeg Pafiliwn y Grand)<br><br>Y Cynghorydd Hywel Williams: Buddiant personol yn ymwneud ag eitem 7 |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

## 238. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion .. fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

## 239. Derbyn cyhoeddiadau gan:

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y Prif Weithredwr a'r Aelodau canlynol o'r Cabinet (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau):-<br><br>• Y Maer<br>• Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

## 240. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

## 241. Diweddariad Chwarter 3 – Rhaglen Gyfalaf 2025–26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad ddiweddariad ar wariant cyfalaf y cyngor o 31 Rhagfyr 2025.<br><br>Nododd fod cyfanswm y gwariant hyd yma oddeutu £23.5 miliwn, gyda'r cyfanswm a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn £78.2 miliwn. Cofnodwyd llithriant o £3.392 miliwn ar gyfer prosiect Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl oherwydd amserlenni cyllid grant.<br><br>Trafodwyd y pwyntiau/cwestiynau canlynol:<br><br>• Eglurhad ar sut roedd y Cyngor yn bwriadu gwario £54 miliwn yn y chwarter olaf.<br><br>• Gofynnwyd am eglurhad ar gyfanswm y gyllideb sy'n ymwneud â Phafiliwn y Grand.<br><br>Darparwyd eglurhad ar yr uchod gan y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid.<br><br>Sicrhaodd swyddogion eu bod ar y trywydd iawn i gwblhau'r holl waith adnewyddu erbyn diwedd y tymor, gydag £1.8 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu.<br><br>Amddiffynnodd y Dirprwy Arweinydd lefelau benthyca'r Cyngor, gan ddweud ei fod yn hanfodol ar gyfer seilwaith a newid adeiladau ysgol anniogel, a heb fenthyca, ni fyddai llawer o brosiectau fel Ysgol Heronsbridge wedi cael eu cwblhau. Tynnodd sylw at y ffaith mai'r Cyngor, o ran benthyca yn yr hirdymor, sydd wedi benthyca'r ail swm lleiaf yng Nghymru gyfan, gan brofi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont |

| | |
|---|---|
| | ar Ogwr yn gyfrifol wrth fenthyca.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:<br><br>• Wedi nodi diweddariad Chwarter 3 Rhaglen Gyfalaf 2025–26 y Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2025 (Atodiad A)<br><br>• Wedi nodi'r llithriant o £3.392 miliwn i 2026–27 fel y manylir yn Atodiad B.<br><br>• Wedi cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau fel y manylir yn Atodiad B.<br><br>• Wedi cymeradwyo'r ychwanegiadau/gostyngiadau newydd i'r rhaglen gyfalaf yn 2025–26, sef cyfanswm o £1.888 miliwn fel yr amlinellir yn Atodiad B.<br><br>• Wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024–25 a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2025–26 (Atodiad C). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | |

**242. Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cyngor am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddogfen y fersiwn ddrafft o'r 'Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth'.<br><br>Amlinellodd fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyfyngedig, a nodwyd y rhain yn Atodiad 2. Roedd y CCA newydd ynghlwm yn atodiad 1. |

| | |
|---|---|
| | Codwyd cwestiwn ar eiddo sy'n gweithredu fel Tai Amlfeddiannaeth ac sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol yn ddiweddarach a sut caiff hyn ei daclo. Rhoddodd y rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth eglurhad ar y cyfreithlondeb a'r camau gorfodi a oedd ar gael.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ar y meysydd canlynol:<br>• Llety Dros Dro<br>• Storio Gwastraff a Sbwriel<br>• Parcio a Seilwaith<br>• Y "prawf 10%" ar gyfer gwrthodiadau<br><br>Yn ôl yr Aelodau, er nad oedd y canllawiau yn berffaith, roeddent yn cynnig mwy o eglurder ynghylch rhai materion yn ogystal â'r trawsgroesi a'r gwahaniaethau rhwng Cynllunio a Thrwyddedu.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:<br><br>• Wedi nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo ymatebion y swyddog i'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, ynghyd â'r gwelliannau canlyniadol a nodir yn Atodiad 2 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.<br><br>• Wedi cymeradwyo ffurf derfynol y CCA ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Atodiad 1) a chytuno i fabwysiadu a rhoi'r CCA ar waith ar unwaith fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ynghyd â'r CDLl newydd a fabwysiadwyd, yn amodol ar ddarpariaethau penderfyniadau 'c'.<br><br>• Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol a chywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r CCA mabwysiedig ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.<br><br>• Wedi nodi a chymeradwyo cynnwys y nodyn canllaw dwy dudalen |

| | |
|---|---|
| | o'r enw 'Canllaw i Reoliadau Cynllunio, Trwyddedu ac Adeiladu ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth' sydd ynghlwm fel Atodiad 3. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**243. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Darparodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad a hysbysodd y Cyngor o adroddiad gwybodaeth diweddar a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf.<br><br>Atodwyd yr adroddiad yn atodiad 1 er gwybodaeth.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau wedi nodi cynnwys yr adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**244. Derbyn y Cwestiwn canlynol gan: Y Cynghorydd Rhys Goode i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dosbarthwyd ymateb i'r holl Aelodau.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Rhys Goode a gafodd ei ateb yn y cyfarfod. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**245. Derbyn y Cwestiwn canlynol gan: Y Cynghorydd Ian Williams i'r Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dosbarthwyd ymateb i'r holl Aelodau.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ian Williams a gafodd ei ateb yn y cyfarfod. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**246. Derbyn y Cwestiwn canlynol gan: Y Cynghorydd Tim Thomas i'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dosbarthwyd ymateb i'r holl Aelodau.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas a gafodd ei ateb yn y cyfarfod. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**247. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

**248. Gwahardd y Cyhoedd**

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Nad oedd yr adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem ganlynol i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cyngor, yn unol â'r Ddeddf, i ystyried yr eitem hon yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | | |

## 249. Caffael Eiddo Strategol Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Eithriwyd yr eitem hon |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 04 Chwefror 2026 |

I weld y ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:00